Hyb ACE Cymru
ACE Hub Wales

Pecyn Cymorth Trawma a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (TrACE)

DECHRAU

Cefnogi sefydliadau i ymgorffori ymarfer sy'n ystyriol o drawma ac ymwybyddiaeth o ACE

Fersiwn 2c Ebrill 2025

Ynglŷn â'r Adnodd Hunanasesu hwn
A1 Llywodraethu, Arweinyddiaeth a Diwylliant Sefydliadol
A2 Polisïau a gweithdrefnau
A3 Hyfforddiant a Chymorth i'r Gweithlu
A4 Amgylchedd Ffisegol
A5 Dylunio a Darparu Gwasanaeth
A6 Monitro a Gwerthuso

Ynglŷn â'r Adnodd Hunanasesu hwn

Croeso i Offeryn Hunanasesu Hyb ACE Cymru ar gyfer Sefydliadau sy'n Ystyriol o Drawma: Ymgorffori Ymarfer sy'n Ystyriol o Drawma ac Ymwybyddiaeth o ACE. Mae **dogfen ganllaw** ar gael i egluro pwrpas yr hunanasesiad fel rhan o broses yn fwy manwl; rydym yn eich cynghori i ddarllen y canllawiau ***cyn*** llenwi'r holiadur. Cliciwch yma i weld copi y gellir ei lawrlwytho o'r ddogfen ganllaw. Yn ogystal, os hoffech gysylltu ag eraill ar eu Taith TrACE, mae croeso i chi ymuno â Chymuned Ymarfer TrACE drwy gysylltu ag ace@wales.nhs.uk.

Pwrpas yr offeryn hwn yw helpu i adlewyrchu a deall y cynnydd y mae sefydliad yn ei wneud o safbwynt unigol a phartneriaeth ehangach wrth ymgorffori ymarfer sy'n ystyriol o drawma ac ymwybyddiaeth o ACE. Dylai'r offeryn gynorthwyo i nodi cryfderau a llwyddiannau, gan amlygu cyfleoedd i wella hefyd. Mae datblygiad yr offeryn hwn wedi'i ddylanwadu gan waith Hyb ACE Cymru gyda phartneriaid, ac ymarfer cwmpasu o ddeunydd cysylltiedig.

Mae gan bawb rôl i'w chwarae i sicrhau bod Cymru'n dod yn genedl sydd yn ystyriol o ACE ac yn ymwybodol o drawma. Mae ein nod ar gyfer y pecyn cymorth yn cefnogi'r weledigaeth hon, a gyflawnir trwy atal, lliniaru a mynd i'r afael ag effaith trawma ac ACEs. O fewn y weledigaeth hon mae:

- Gostyngiad yn nifer yr achosion o ACEs, trawma ac aildrawmateiddio
- Mwy o ffocws ar hwyluso iachâd o drawma'r gorffennol
- Cefnogi'r defnydd o ymarfer sy'n ystyriol o drawma
- Cryfhau myfyrio ar arferion a dulliau hunanofal
- Gwella ymatebion y system
- Hwyluso cymdeithas dosturiol ac ymatebol sy'n dangos ymagwedd sy'n seiliedig ar blant a hawliau dynol.

Nod y Pecyn Cymorth TrACE yw cynorthwyo sefydliadau i fyfyrio ar eu diwylliant, arferion a'u proses gyfredol a nodi gweithgareddau i weithredu dulliau mwy gwybodus ynghylch trawma a mwy ymatebol i drawma gan arwain at berchnogaeth gynyddol ar gyfer newid trawsnewidiol yn eu lleoliad. Mae'r offeryn hunanasesu hwn yn rhan o'r pecyn cymorth ac mae'n cynnig canllaw ymarferol i gefnogi sefydliadau i ymgorffori ymarfer sy'n ystyriol o drawma ac ymwybyddiaeth o ACE.

Ynglŷn â'r Adnodd Hunanasesu hwn

A1 Llywodraethu, Arweinyddiaeth a Diwylliant Sefydliadol

A2 Polisïau a gweithdrefnau

A3 Hyfforddiant a Chymorth i'r Gweithlu

A4 Amgylchedd Ffisegol

A5 Dylunio a Darparu Gwasanaeth

A6 Monitro a Gwerthuso

Mae'r offeryn hwn yn cefnogi gweithredu dull sefydliad cyfan o fod yn ystyriol o drawma ac yn ymwybodol o ACE, ac felly mae ganddo adrannau gwahanol a all fod yn berthnasol i wahanol bobl/timau o fewn y sefydliad. Mae'n darparu gwybodaeth ymarferol i gefnogi gwahanol gamau'r daith, o uwch arweinwyr yn nodi trawma ac ACEs fel blaenoriaeth strategol i ddarparu sgiliau a gwybodaeth i staff. Ar ddiwedd pob parth, mae rhestr o adnoddau a allai fod yn ddefnyddiol i gefnogi cwblhau'r hunanasesiad. Edefyn aur drwy gydol y broses hon yw ymgysylltiad a chyfranogiad pawb sy'n cael profiad o'r sefydliad felly mae'n hanfodol cynnwys defnyddwyr gwasanaeth, staff, cleientiaid ac unrhyw bobl allweddol eraill.

Hunanasesiad o Ymarfer sy'n Ymwybodol o ACE ac sy'n Ystyriol o Drawma ar draws y Parthau / Meysydd Gweithredu



Cynlluniwyd y ddogfen hon i'w lawrlwytho i'ch cyfrifiadur. Bydd angen agor y ddogfen yn Adobe Acrobat neu Adobe Acrobat Reader y gellir ei lawrlwytho am ddim oddi ar https://get.adobe.com/uk/reader/

Unwaith y byddwch wedi'i chadw ar eich cyfrifiadur byddwch yn gallu mewnbynnu'ch gwybodaeth i'r colofnau priodol. *(Bydd y ffurflen yn caniatáu ichi nodi cymaint o destun ag sydd ei angen arnoch, bydd bar sgrolio yn ymddangos os oes gormod o destun i'w weld yn y blwch testun).*

Dylid defnyddio'r golofn **'Sut y gellir gwneud pethau'n wahanol'** i nodi pethau y gellid eu gwneud yn wahanol a dylid myfyrio ymhellach arnynt i lywio cynllun gweithredu gwella. Yna gallwch gadw'r ffeil a dychwelyd ati yn nes ymlaen.

Sylwch, heb Acrobat, byddwch yn gallu gweld y ddogfen ond ni fyddwch yn gallu ychwanegu eich gwybodaeth eich hun na chadw'r ffeil.

Gellir cael rhagor o gymorth drwy fynd i www.hybacecymru.com neu drwy gysylltu â'r Hyb ACE yn uniongyrchol drwy ace@wales.nhs.uk.

Ynglŷn â'r Adnodd Hunanasesu hwn
A1 Llywodraethu, Arweinyddiaeth a Diwylliant Sefydliadol
A2 Polisïau a gweithdrefnau
A3 Hyfforddiant a Chymorth i'r Gweithlu
A4 Amgylchedd Ffisegol
A5 Dylunio a Darparu Gwasanaeth
A6 Monitro a Gwerthuso

A1 Llywodraethu, Arweinyddiaeth a Diwylliant Sefydliadol

A1 Llywodraethu, Arweinyddiaeth a Diwylliant Sefydliadol: mae'r parth hwn yn ymwneud â'r gefnogaeth gyffredinol ar gyfer gweithredu a chynnal dull sy'n ystyriol o drawma ac sy'n ymwybodol o ACE, a'r buddsoddiad mewn gwneud hynny.

Meini prawf i'w hystyried	Tystiolaeth o'r hyn y mae'r sefydliad yn ei wneud eisoes	Sut y gellir gwneud pethau'n wahanol
Mae cyfarwyddwyr, arweinwyr a rheolwyr yn deall trawma, ACEs ac/neu adfyd, effaith bosibl trawma, ACEs ac/neu adfyd, y cymhlethdod o amgylch iachâd ac adferiad ac egwyddorion ymarfer sy'n ystyriol o drawma.		
Mae datganiad sefydliadol o ymrwymiad i dwf a newid tuag at fod yn fwy ystyriol o drawma ac yn ymwybodol o ACE sy'n cael ei gyfleu a'i ddeall ar draws y sefydliad.		
Mae pwynt cyfrifoldeb wedi'i nodi o fewn y sefydliad i arwain a goruchwylio gweithredu dull sydd yn ystyriol o drawma ac yn ymwybodol o ACE.		

Ynglŷn â'r Adnodd Hunanasesu hwn

A1 Llywodraethu, Arweinyddiaeth a Diwylliant Sefydliadol

A2 Polisïau a gweithdrefnau

A3 Hyfforddiant a Chymorth i'r Gweithlu

A4 Amgylchedd Ffisegol

A5 Dylunio a Darparu Gwasanaeth

A6 Monitro a Gwerthuso

Meini prawf i'w hystyried	Tystiolaeth o'r hyn y mae'r sefydliad yn ei wneud eisoes	Sut y gellir gwneud pethau'n wahanol
Mae arweinyddiaeth yn caniatáu adnoddau ar gyfer gweithredu arferion sy'n ystyriol o drawma ac sy'n ymwybodol o ACE.		
Mae staff ar bob lefel yn cael eu cynnwys yn y sefydliad i lywio a llywio'r gwaith o weithredu dulliau ac arferion sy'n seiliedig ar drawma ac sy'n ymwybodol o ACE.		
Mae arweinyddiaeth yn gydweithredol - mae ymgysylltiad a chyfranogiad y rhai sy'n profi'r sefydliad, rhaglen neu wasanaeth, fel staff neu cwsmeriaid/defnyddwyr gwasanaeth/cleientiaid i lywio cynllunio.		

Adnoddau defnyddiol

- Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma
- Cymru sy'n Ystyriol o Drawma: Dogfen Hygyrch
- Prifysgol Wrecsam - Fideo Llywio'r Storm
- Adolygiad Parodrwydd ar gyfer Gweithredu Pecyn Cymorth TrACE
- Canllawiau Datganiad Ymrwymiad
- Animeiddiad Fframwaith Ystyriol o Drawma

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am lansiad unrhyw offer ychwanegol, ac i gysylltu ag eraill ar eu Taith TrACE mae croeso i chi ymuno â TrACE Space drwy gysylltu ag ace@wales.nhs.uk

Ynglŷn â'r Adnodd Hunanasesu hwn

A1 Llywodraethu, Arweinyddiaeth a Diwylliant Sefydliadol

A2 Polisïau a gweithdrefnau

A3 Hyfforddiant a Chymorth i'r Gweithlu

A4 Amgylchedd Ffisegol

A5 Dylunio a Darparu Gwasanaeth

A6 Monitro a Gwerthuso

A2 Polisïau a Gweithdrefnau

A2 Polisïau a Gweithdrefnau: mae'r parth hwn yn ymwneud â sut mae polisïau a gweithdrefnau sefydliadol yn dangos ymrwymiad i, ac yn galluogi systemau mewnol i adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion sylfaenol ymarfer sy'n ystyriol o drawma ac sy'n ymwybodol o ACE.

Meini prawf i'w hystyried	Tystiolaeth o'r hyn y mae'r sefydliad yn ei wneud eisoes	Sut y gellir gwneud pethau'n wahanol
Mae polisi yn amlinellu ymrwymiad y sefydliad i fod yn fwy ystyriol o drawma ac yn ymwybodol o ACE.		
Mae polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad yn cydnabod bod hanes trawma ac ACEs yn bosibilrwydd i bawb ac yn ystyried effaith, arwyddion a symptomau trawma.		
Mae polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad yn ystyried y risg o gael trawma eto ac yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer lles, iachâd ac adferiad trwy ganolbwyntio ar egwyddorion ymarfer sy'n ystyriol o drawma (diogelwch, dewis, cydweithio, grymuso ac ymddiriedaeth). Mae'r sefydliad yn sicrhau: • Mae diogelwch corfforol ac emosiynol yn cael ei flaenoriaethu • Caiff ymddiriedaeth ei mwyafu drwy eglurder tasgau, cysondeb a ffiniau rhyngbersonol • Mae gweithgareddau a lleoliadau'n mwyafu profiad pobl o ran dewis a rheolaeth. • Mae gweithgareddau a lleoliadau'n mwyafu cydweithrediad • Mae gweithgareddau a lleoliadau'n blaenoriaethu grymuso a magu sgiliau • Rhoddir ystyriaeth i'r cydbwysedd rhwng seilwaith / proses a pherthnasoedd.		

Ynglŷn â'r Adnodd Hunanasesu hwn

A1 Llywodraethu, Arweinyddiaeth a Diwylliant Sefydliadol

A2 Polisïau a gweithdrefnau

A3 Hyfforddiant a Chymorth i'r Gweithlu

A4 Amgylchedd Ffisegol

A5 Dylunio a Darparu Gwasanaeth

A6 Monitro a Gwerthuso

Meini prawf i'w hystyried	Tystiolaeth o'r hyn y mae'r sefydliad yn ei wneud eisoes	Sut y gellir gwneud pethau'n wahanol
Mae polisïau gweithlu'r sefydliad yn dangos ymrwymiad i hyfforddi staff ar ymarfer sy'n ystyriol o drawma ac ymwybyddiaeth o ACE wrth ymgyfarwyddo / cynefino a hyfforddiant a chymorth parhaus perthnasol.		
Mae polisïau a gweithdrefnau'n cael eu gwerthuso a'u hadolygu'n rheolaidd fel rhan o'r broses adolygu a chynllunio i weithredu newid lle mae'n berthnasol.		
Mae'r rhai sy'n profi'r sefydliad yn ymgysylltu ac yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu ac adolygu polisïau a gweithdrefnau.		

Adnoddau defnyddiol

- Canllawiau ar gyfer Polisi ac Arfer sy'n Ystyriol o Drawma
- Canllawiau ar Gyfathrebu sy'n ystyriol o drawma

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am lansiad unrhyw offer ychwanegol, ac i gysylltu ag eraill ar eu Taith TrACE mae croeso i chi ymuno â TrACE Space drwy gysylltu ag ace@wales.nhs.uk

Ynglŷn â'r Adnodd Hunanasesu hwn

A1 Llywodraethu, Arweinyddiaeth a Diwylliant Sefydliadol

A2 Polisïau a gweithdrefnau

A3 Hyfforddiant a Chymorth i'r Gweithlu

A4 Amgylchedd Ffisegol

A5 Dylunio a Darparu Gwasanaeth

A6 Monitro a Gwerthuso

A3 Hyfforddiant a Chymorth i'r Gweithlu

A3 Hyfforddiant a Chymorth i'r Gweithlu: mae'r parth hwn yn ymwneud â sicrhau gwybodaeth a sgiliau o fewn y gweithlu, gan alluogi egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gael eu hymgorffori mewn cylch dysgu cefnogol parhaus sy'n cydnabod pwysigrwydd lles a diogelwch y gweithlu.

Meini prawf i'w hystyried	Tystiolaeth o'r hyn y mae'r sefydliad yn ei wneud eisoes	Sut y gellir gwneud pethau'n wahanol
Mae ymarfer sy'n ystyriol o drawma a gofynion gwybodaeth a sgiliau ymwybyddiaeth ACE yn cael eu cymeradwyo yn ystod recriwtio (e.e. disgrifiadau swydd a phrosesau dethol) a'r cyfnod sefydlu / cynefino corfforaethol.		
Mae strategaeth hyfforddi i sicrhau hyfforddiant priodol a datblygiad gweithlu er mwyn i staff ddeall: • trawma, ACEs ac/neu adfyd • effaith bosibl trawma, ACEs ac/neu adfyd • cymhlethdod ynghylch iachâd ac adferiad ac egwyddorion ymarfer sy'n ystyriol o drawma.		
Mae cyfleoedd datblygu uwch (yn ôl yr angen) yn cynnwys cynllunio gweithredu i sicrhau ymgorffori gwybodaeth a sgiliau, trosglwyddo dysgu a chymorth dilynol.		
Ceir diwylliant o ddiogelwch a dysgu parhaus lle mae staff yn teimlo'n ddiogel i fynegi teimladau, gwneud camgymeriadau a myfyrio ar eu meddyliau, eu hemosiynau a'u hymddygiad eu hunain ac eraill.		

Ynglŷn â'r Adnodd Hunanasesu hwn
A1 Llywodraethu, Arweinyddiaeth a Diwylliant Sefydliadol
A2 Polisïau a gweithdrefnau
A3 Hyfforddiant a Chymorth i'r Gweithlu
A4 Amgylchedd Ffisegol
A5 Dylunio a Darparu Gwasanaeth
A6 Monitro a Gwerthuso

Meini prawf i'w hystyried	Tystiolaeth o'r hyn y mae'r sefydliad yn ei wneud eisoes	Sut y gellir gwneud pethau'n wahanol
Darperir goruchwyliaeth a chymorth i staff gan gynnwys effaith ar eu lles, hunanofal a diogelwch eu hunain.		
Mae'r sefydliad yn mynd i'r afael â'r straen emosiynol a all godi o ganlyniad i arferion gwaith.		
Anogir arfer myfyriol i gynnwys yr effaith ar les, hunanofal a diogelwch personol		
Mae mynediad i gymunedau ymarfer, setiau dysgu gweithredol neu gyfleoedd tebyg ar gyfer rhannu gwybodaeth a sgiliau mewn perthynas ag ymarfer sy'n ystyriol o drawma ac ymwybyddiaeth o ACE.		

Adnoddau defnyddiol

- Hyfforddiant Sefydliadau Sy'n Ystyriol o Drawma Cymru Gyfan Barnardo's
- Animeiddiad Fframwaith sy'n ystyriol o Drawma
- e-Ddysgu Hyb ACE Cymru
- Canllawiau Ymarfer Myfyriol

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am lansiad unrhyw offer ychwanegol, ac i gysylltu ag eraill ar eu Taith TrACE mae croeso i chi ymuno â TrACE Space drwy gysylltu ag ace@wales.nhs.uk

Ynglŷn â'r Adnodd Hunanasesu hwn

A1 Llywodraethu, Arweinyddiaeth a Diwylliant Sefydliadol

A2 Polisïau a gweithdrefnau

A3 Hyfforddiant a Chymorth i'r Gweithlu

A4 Amgylchedd Ffisegol

A5 Dylunio a Darparu Gwasanaeth

A6 Monitro a Gwerthuso

A4 Yr Amgylchedd Ffisegol

A4 Yr Amgylchedd Ffisegol: mae'r parth hwn yn ymwneud â'r hyn y mae'r amgylcheddau ffisegol a chymdeithasol yn ei ddarparu i hyrwyddo diogelwch a darparu adnoddau priodol i gyflawni hyn.

Meini prawf i'w hystyried	Tystiolaeth o'r hyn y mae'r sefydliad yn ei wneud eisoes	Sut y gellir gwneud pethau'n wahanol
Mae amgylcheddau corfforol a chymdeithasol yn hyrwyddo ymdeimlad o ddiogelwch corfforol ac emosiynol i bawb sy'n profi'r lleoliad.		
Rhoddir ystyriaeth i agweddau ar yr amgylchedd ffisegol a all achosi trawma/ail-achosi trawma.		
Darperir lleoedd sy'n hyrwyddo iechyd a lles ac i bobl eu defnyddio i ymarfer hunanofal.		

Adnoddau defnyddiol

- Creu Amgylcheddau Ffisegol sy'n Ystyriol o Drawma a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (TrACE)

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am lansiad unrhyw offer ychwanegol, ac i gysylltu ag eraill ar eu Taith TrACE mae croeso i chi ymuno â TrACE Space drwy gysylltu ag ace@wales.nhs.uk

Ynglŷn â'r Adnodd Hunanasesu hwn
A1 Llywodraethu, Arweinyddiaeth a Diwylliant Sefydliadol
A2 Polisïau a gweithdrefnau
A3 Hyfforddiant a Chymorth i'r Gweithlu
A4 Amgylchedd Ffisegol
A5 Dylunio a Darparu Gwasanaeth
A6 Monitro a Gwerthuso

A5 Cynllunio a Chyflenwi Gwasanaethau

A5 Cynllunio a Chyflenwi Gwasanaethau: mae'r parth hwn yn ymwneud â sicrhau bod egwyddorion sy'n ystyriol o drawma yn cael eu hymgorffori ym mhob agwedd ar ddarparu gwasanaethau.

Meini prawf i'w hystyried	Tystiolaeth o bethau rydym yn eu gwneud	Lle gallai pethau gael eu gwneud yn wahanol
Cynllunnir gwasanaethau gyda dealltwriaeth o fynychder ac effaith bosibl trawma, ACEs ac/neu adfyd a'r llwybrau cymhleth at iachâd ac adferiad ac yn arbennig yr ystyriaeth y gallai fod gan unrhyw un brofiad(au) bywyd.		
Mae pob agwedd ar y gwasanaethau a ddarperir wedi'u trefnu i nodi a chydnabod mynychder a dynameg trawma, ACEs ac/neu adfyd.		
Trefnir gwasanaethau gan gydnabod bod rhywbeth wedi digwydd i'r unigolyn yn hytrach na'i fod yn ymwneud â'r hyn sydd o'i le ar yr unigolyn.		
Mae gwasanaethau'n ymateb i effaith trawma, ACEs ac/neu adfyd yn pwysleisio diogelwch corfforol, seicolegol ac emosiynol ar gyfer y rhai sydd wedi profi trawma, ACEs ac/neu adfyd.		

Ynglŷn â'r Adnodd Hunanasesu hwn

A1 Llywodraethu, Arweinyddiaeth a Diwylliant Sefydliadol

A2 Polisïau a gweithdrefnau

A3 Hyfforddiant a Chymorth i'r Gweithlu

A4 Amgylchedd Ffisegol

A5 Dylunio a Darparu Gwasanaeth

A6 Monitro a Gwerthuso

Meini prawf i'w hystyried	Tystiolaeth o bethau rydym yn eu gwneud	Lle gallai pethau gael eu gwneud yn wahanol
Mae gwasanaethau'n cael eu creu i wneud y mwyaf o gyfleoedd i'r rhai sydd wedi profi trawma, ACEs ac/neu adfyd i ailadeiladu ymdeimlad o ddiogelwch, rheolaeth a grym trwy ddewis, cydweithio a grymuso.		
Mae gwasanaethau'n cydnabod pwysigrwydd perthnasoedd fel modd hyrwyddo iachâd ac adferiad.		
Ceir ystyriaeth system gyfan o ran y rhyngwyneb â gwasanaethau eraill, yn fewnol yn y sefydliad ac ar draws asiantaethau partner i sicrhau bod cyd-ddealltwriaeth o arfer sy'n ystyriol o drawma ac ymwybyddiaeth o ACE.		

Adnoddau defnyddiol

- Canllawiau'r Datganiad Ymrwymiad
- Canllawiau Ymarfer Myfyriol

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am lansiad unrhyw offer ychwanegol, ac i gysylltu ag eraill ar eu Taith TrACE mae croeso i chi ymuno â TrACE Space drwy gysylltu ag ace@wales.nhs.uk

Ynglŷn â'r Adnodd Hunanasesu hwn

A1 Llywodraethu, Arweinyddiaeth a Diwylliant Sefydliadol

A2 Polisïau a gweithdrefnau

A3 Hyfforddiant a Chymorth i'r Gweithlu

A4 Amgylchedd Ffisegol

A5 Dylunio a Darparu Gwasanaeth

A6 Monitro a Gwerthuso

A6 Monitro a Gwerthuso

A6 Monitro a Gwerthuso:		
Meini prawf i'w hystyried	Tystiolaeth o bethau rydym yn eu gwneud	Lle gallai pethau gael eu gwneud yn wahanol
Caiff gwybodaeth am brofiadau pobl ei chasglu'n rheolaidd a'i defnyddio i lywio cynlluniau.		
Cynhelir gwerthusiadau rheolaidd o bolisïau ac arfer fel rhan o'r broses adolygu a chynllunio – er mwyn rhoi newidiadau ar waith pan fo'n berthnasol		
Mae prosesau ar gyfer dysgu a gwella parhaus ar waith.		
Mae monitro a gwerthuso yn ystyried mecanweithiau i hyrwyddo cydweithredu traws-sector a pha mor ystyriol o drawma mae'r system.		

Adnoddau defnyddiol

- Pecyn Cymorth Gwerthuso Uned Atal Trais Cymru
- Canllawiau Dangosyddion Llwyddiant

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am lansiad unrhyw offer ychwanegol, ac i gysylltu ag eraill ar eu Taith TrACE mae croeso i chi ymuno â TrACE Space drwy gysylltu ag ace@wales.nhs.uk

Hyb ACE Cymru
ACE Hub Wales

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Hyb ACE Cymru
Cyfeiriad: 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ
E-bost: ACE@wales.nhs.uk
Gwefan: www.hybacecymru.com

© 2025 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod y caiff ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i'w nodi i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Oni noder fel arall, mae'r hawlfraint yn y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r cynllun yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.